# Neuadd Tŷ Gwyn

Llandeilo Bertholau, Y Fenni,
Sir Fynwy, Cymru NP7 6NY
**Ffôn: 01873 856 197**
**E-bost:** tygwyn@elysiumhealthcare.co.uk



Mae Neuadd Tŷ Gwyn yn darparu gwasanaeth adsefydlu cleifion mewnol iechyd meddwl Lefel 2. Yn yr ysbyty mae llwybr sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaethau i symud rhwng unedau wrth i'r broses wella fynd rhagddi, gan gynnwys lleoliad camu i lawr ar dir yr ysbyty, a chartrefi gofal yn y gymuned leol. Mae gan Tŷ Gwyn wasanaeth i ddynion a gwasanaeth i fenywod.

Ein nod yw darparu gofal o ansawdd uchel sy'n cael ei gynhyrchu ar y cyd ac a fydd yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu gobaith a hyder, gan arwain at gael eu rhyddhau'n llwyddiannus o'r ysbyty.

**Cipolwg ar y gwasanaeth:**

- 2 — Gwasanaeth **Lefel 2**
- Cyfanswm o **36** o welyau*
- Gwasanaeth i **ddynion a menywod**
- 18+ — 18 oed a throsodd



## Pwy rydym yn eu cefnogi

Rydym yn cefnogi dynion a menywod

- 18 oed a throsodd
- Sydd ag anghenion adsefydlu iechyd meddwl dynodedig. Mae hyn yn cynnwys pobl a allai fod ag anabledd dysgu ysgafn, sy'n awtistig neu sydd wedi cael diagnosis o Anhwylder Personoliaethol
- Sydd ag ymddygiadau sy'n herio neu sy'n cael eu gweld fel rhai sy'n herio gwasanaethau
- A allai fod â hanes o gamddefnyddio sylweddau neu alcohol
- A allai fod â hanes o drawma
- A allai fod â hanes fforensig a/neu sy'n camu i lawr o wasanaethau diogel
- Pobl sy'n eu hystyried eu hunain yn fenywod neu'n ddynion, p'un a ydynt yn trawsnewid neu beidio, a'r rhai sy'n eu hystyried eu hunain yn anneuaidd, rhyweddhylifol, rhywedd anghydffurfiol neu rywedd cwiar wedi'u cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd yn 2007) neu'n anffurfiol
- Sy'n anelu at ddychwelyd i'r gymuned neu i ofal yn y gymuned





## Beth rydym yn ei wneud

Mae ein gwasanaeth yn hyrwyddo diwylliant o ofal sy'n ystyriol o drawma, a therapi sy'n canolbwyntio ar dosturi, sy'n cael ei atgyfnerthu drwy hyfforddiant parhaus i'r staff. Rydym yn mynd ati'n barhaus i adolygu unrhyw arferion cyfyngol ac yn annog pobl i gymryd rhan mor llawn â phosibl ym mhob gweithgaredd a gwasanaeth yn y gymuned ag sy'n bosibl, yn unol â'u hanghenion.

Er mwyn cefnogi pobl sydd mewn trallod neu sy'n teimlo'n anniogel, efallai y byddwn yn defnyddio gweithdrefnau perthynol i gynnal diogelwch, fel arsylwadau cefnogol ehangach.

Rydym wedi ymrwymo i gydgynhyrchu, gan fynd ati i annog defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr i gydweithio â'n tîm i gynllunio gofal ac ymgysylltiad ystyrlon.

## Pa gefnogaeth ydym ni'n ei chynnig?

Rydym yn cynnig therapïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys:

- Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR)
- Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT)
- Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT)
- Therapi Teuluol Systemig (SFT), sy'n cael ei ddarparu'n unigol neu mewn lleoliadau grŵp

Mae gan ein Clinigydd Cyfrifol ddiddordeb arbennig mewn Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) a'r defnydd o clozapine y tu allan i seicosis. Gallwn ni gefnogi triniaeth unigolion gyda Therapi Electrogynhyrfol (ECT). Mae gennym ni glinigwyr sydd wedi'u hyfforddi mewn asesu awtistiaeth a diagnosis awtistiaeth.

Drwy fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar adferiad a defnyddio fframwaith Recovery Star, ein nod yw sicrhau'r canlyniadau adsefydlu gorau posibl.

## Y tîm

Mae ein Tîm Amlddisgyblaethol profiadol yn Neuadd Tŷ Gwyn yn cynnwys:

- Seiciatrydd Ymgynghorol
- Meddyg Arbenigol Cyswllt
- Seicolegydd a Chynorthwywyr Seicoleg
- Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig
- Therapydd Galwedigaethol a Chynorthwywyr Therapi Galwedigaethol
- Gweithiwr cymdeithasol
- Gweithwyr Cymorth

## Galluogi unigolion i gyrraedd eu llawn botensial

Rydym yn gweithio'n agos gyda defnyddwyr gwasanaethau i ganfod a chefnogi gweithgareddau adfer ystyrlon. Mae gennym ganolfan therapi galwedigaethol bwrpasol sydd ag ardaloedd therapi ynghyd â chegin hygyrch wedi'i ffitio'n llawn. Rydym yn gweithio tuag at gael pobl i dreulio cymaint o amser â phosibl yn defnyddio gwasanaethau cymunedol.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd galwedigaethol i unigolion, gan gynnwys lleoliadau gwaith go iawn yn yr ysbyty, yn ogystal â nifer o leoliadau gwaith a gwirfoddol ochr yn ochr â chyrsiau coleg. Mae'r tiroedd helaeth yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer prosiectau gwyrdd.

## Beth sydd o'n cwmpas

Mae Tŷ Gwyn mewn lleoliad cyfleus o fewn pellter cerdded i amwynderau lleol, gan gynnwys safle bws a siopau. Mae'n agos at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Fenni gerllaw, sy'n cynnig mynediad at lawer o wasanaethau cymunedol.

Caiff defnyddwyr gwasanaethau eu hannog i bersonoli eu hystafelloedd gwely, sydd â chyfleusterau en-suite.



## Sut mae atgyfeirio:

Llinell atgyfeirio 24 awr
**0800 218 2398**

Anfonwch e-bost at:
**referrals@elysiumhealthcare.co.uk**

I weld ein taith fideo, ewch i **elysiumhealthcare.co.uk**

**Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn ieithoedd gwahanol, Braille, Hawdd ei Deall ac Iaith Arwyddion Prydain ar gais**

Elysium Healthcare

Kindness Integrity Teamwork Excellence

Part of Ramsay Health Care

1697/0125